YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD. GORFFENAF, 1920. [CYF. XX. RHIF 7.

AR ADEN FFYDD.

TREIGL OES.

Byrr yw'n hoes ac ansertennol,
Heddyw'n fyw, y fory'n farwol,
Gynne'n gawr, y fory'n gelain ;
Dyna gyflwr dyn a'i ddamwain.

Fel y rhed yr haul i'r hwyr,
Fel y treulia cannwyll gwyr ;
Fel y syrthia'r rhosyn gwynn ;
Fel y diffydd tarth ar lynn ;
Felly treulia, felly rhed,
Felly derfydd pobol cred ;
Felly diffydd bywyd dyn,
Felly syrthiwn bob yr un.

Fel y t'rewir pysg a thryfer,
Fel y saethir phesant dyner,
Fel y torri'r blodeu'r ardd,
Fel y lleddir gweunydd hardd ;
Felly t'rewir dyn heb wybod,
Felly saethir yn ddiddarfod,
Felly torrir gwychder dyn,
Felly lleddir bob yr un.

Fel y cwymp holl ddail yr allt,
Fel y cropia'r gwelle'r gwallt,
Fel y gwywa lili'r maes,
Fel y tyrr y gwydir glas ;
Felly gwywn, felly tyrr,
Felly cracia'n bywyd byrr,
Felly cropir einioes dyn,
Felly cwympwn bob yr un.

RHYS PRITCHARD 1569—1644.
(*Ficer Llanymddyfri*).

ODDIAR Y TWR.

FE dorrodd gwawr boreu'r nawfed o Fehefin gydag arwyddion o ddiwrnod teg. Boreuddydd Cymanfa Gerddorol Undodiaid Ceredigion ydoedd. Cyrhaeddais i Aberduar—diolch i'r modur—gryn dipyn o amser cyn dechreu oedfa'r boreu: yr oeddwn, yn wir, o nifer yr hanner dwsin cyntaf i ddod yno. Pan aethum i fewn i'r capel nid oedd yno ond un neu ddau. Nid hir y bu, fodd bynnag, cyn y gwelwn un ar ol y llall yn dod i fewn, pob un yn chwilio am y sedd oreu, ac yn ei pherchenogi. Erbyn adeg dechreu, yr oedd y capel tua hanner llawn. Gyda swn canu yr emyn cyntaf llanwyd yr oriel yn gyflym gan gerddorion—plant gan mwyaf. Am un ar ddeg, gydag anhawster y ceid sedd wag yn yr oriel, ac yr oedd y llawr yn gysurus o lawn. Golygfa ogoneddus ydoedd: torf o fobl wedi ymgynnull, o bellter ffordd, lawer o honynt, nid i ymblesera, ond i ganu mawl i awdur nef a daear.

* * *

Yn Aberduar, fel crybwyllwyd, y cynhelid y Gymanfa. Nid dyma'r tro cyntaf iddi fod yno. Yn wir, lle addas neilltuol ydyw i gynnal cymanfa—capel eang, canolog i'r oll o'n heglwysi, mewn pentref gyda digon o gyfleusterau i gael lluniaeth. Cynhelid hi yno, hefyd, ar wahoddiad unfrydol Eglwys Aberduar. Braidd y mae angen crybwyll mai capel y Bedyddwyr ydyw; y mae'r enw Aberduar yn adnabyddus trwy'r oll o Geredigion a Chaerfyrddin, os nad yn wir trwy Gymru gyfan. Arddanghosiad dymunol o ysbryd Cristionogol yw hwn, onite? Ond ni raid i neb synnu oblegid hyn. Y mae eglwys Aberduar, dros ran fawr o'i hanes, wedi byw mewn awyrgylch ffafriol i eangfrydedd. Nid ydynt, oblegid hyn, yn llai o Fedyddwyr. Dyna Mr. Williams (Ab Ithel) yr oedd yn Fedyddiwr o'r Bedyddwyr; ond meddai ddigon o ysbryd eangfrydig i arfer goddefgarwch at ereill o syniadau gwahanol. Cofus gennyf ddarllen, yn un o'r hen Ymofynyddion, hanes Cyrddau Chwarterol y Gymdeithas Undodaidd, yng Nghwmawrdu, os nad wyf yn camsynied. Ymhlith enwau y rhai fu yn pregethu yno, gwelais enw Ab Ithel. Y pryd hynny, nid oeddwn ond ieuanc, a'r ysbryd sectol yn gryf ynof; a synnwn, nid yn gymaint ei fod ef wedi cydsynio i bregethu yng nghyrddau'r Undodiaid, ond fod yr Undodiaid wedi caniatau iddo i bregethu. Yr wyf wedi llwyr orchfygu'r ysbryd sectol, a'r hyn bair syndod imi yn awr yw fod Mr. Williams wedi beiddio pregethu yng nghyrddau'r Undodiaid. Ond dywed y rhai a'i hadnabyddai wrthyf fod hyn yn hollol naturiol i un o'i ysbryd ef. Enw adnabyddus iawn yn rhannau canol Ceredigion a Chaerfyrddin oedd ei eiddo ef, a delir ef mewn cof parchus hyd heddyw. Yr oedd, yn ddiamheuol, yn un o rai rhagorol y ddaear.

Dyna, eto, ysgrifenydd presennol yr eglwys—Mr. David Williams, Heol y Bont. Bedyddiwr, bob modfedd o hono, ydyw yntau. Ond fe hanna, o un ochr, o gyff Undodaidd, ydynt wedi bod yn Undodiaid am genhedlaethau. Ac er nad apelia syniadau Undodaidd ato, y mae yn ei galon barch mawr i grefydd ei dadau. Un a'i holl enaid yng ngwaith ei eglwys ydyw ef, parod gyda'i ben, a'i law a'i boced i hyrwyddo ei llwyddiant. Yr oedd ganddo ef, yn ddiameu, gryn lawer i wneud er sicrhau unfrydedd yng ngwahoddiad yr eglwys i bwyllgor y gymanfa. Hir oes iddo ydyw dymuniad calon pawb o'n heglwysi a'i hadnebydd. Ni raid dweyd ein bod yn gwerthfawrogi caredigrwydd eglwys Aberduar.

* * *

Cyfarfod i'w gofio oedd un y boreu. Yr oedd lleisiau'r plant mor swynol, a phawb yn ymdaflu i'r gwaith gyda'r aiddgarwch a weddai i foreu mor braf. Wrth daflu o honof fy llinyn mesur dros y tri chyfarfod ar derfyn y dydd, braidd na'm tueddid i ddweyd mai cwrdd y boreu oedd y goreu. Yr oedd y fath dorf o blant, gyda'u hwynebau iachus a'u dillad prydferth, yn olygfa a gynhesai'r galon. Beth fydd dyfodol yr eglwysi? Gellir ateb y gofyniad hwn trwy ofyn un arall: a delir y sylw dyladwy gennym i'r plant? Hwy fyddant yn llanw ein lle ni yn y man—os y llenwir ein lle gan rywrai o gwbl. A dibynna hyn arnom ni. Gresyn na ellid dwyn anerchiad rhagorol llywydd y boreu, y Parch. L. Williams, i sylw pob teulu yn ein heglwysi mewn ffurf y gallent ei darllen yn hamddenol, modd y dygid adref atynt, trwyddi, bwysigrwydd anferthol y plentyn.

* * *

Yn ystod cyfarfod y boreu, hefyd, cawd gair gan Mr. David Davies, Gellionen, un o'i anerchiadau hapusaf: anerchiad ydoedd o galon un a'i holl enaid yng ngwaith ei eglwys. Nid yn unig y mae yn weithiwr yn ei eglwys, ond y mae hefyd yn un a ddwg anrhydedd i'w eglwys drwy ei gymeriad ardderchog. Y mae, yn ddiamheuol, yn un o gynhyrchion goreu Undodiaeth; a phe gofynnid imi beth all Undodiaeth wneud yn y mater o feithrin cymeriad crefyddol uchel, fe enwn Mr. Davies fel enghraifft. Nid efe yw'r unig enghraifft, fe'u ceir ymhobun o'n heglwysi; ond y mae efe, yn ddiamheuol, yn sefyll yn uchel ar y rhestr.

* * *

Yn y prydnawn y cawd y cynhulliad lliosocaf. Awd drwy y rhan ddefosiynol gan y Parch. D. G. Rees; a llywyddwyd gan Mr. J. R. Thomas, Pontsian (paham *Pontshaen*, nis gwn). Cafwyd ganddo yntau anerchiad rhagorol iawn. Teimlwn dipyn yn bryderus pan yr achwynai ar y dechreu, oblegid gwendid, gwendid cofforol a *meddyliol*, meddai. Drwg ydoedd gan bawb weled yr arwyddion o wendid

corfforol : nid oedd ond prin gwella o effeithiau'r anwydwst. Ond yn wir ni welais i, er craffu yn fanwl, yr un arwydd lleiaf o'r gwendid meddyliol y cwynai o'i blegid. Y mae Mr. Thomas newydd ymneilltuo i fywyd anghyhoedd, ar ol bywyd prysur yn cyfarwyddo meddyliau cenhedlaethau o ieuenctid sut i anelu at y nod. Nid yw ond dyn cymharol ieuanc eto. Hir nawnddydd gaffo i wasanaethu ei fam-eglwys a'r eglwysi i gyd. Y mae dynion o'i fath ef yn brin iawn.

* * *

Yn yr un cyfarfod, hefyd, cawd gwledd gan Mr. Tyssul Davies yn ei anerchiad penigamp. Nid oes un amheuaeth ynof nad yw Mr. Davies wedi gwneud camsynied yn y dewisiad o alwedigaeth ei fywyd. Ar y llwyfan y mae ei le priodol, yn ddiddadl, ac nid gyda galwedigaeth mor faterol ag adeiladu tai, er ei fod yn feistr ar y gelfyddyd honno hefyd. Ni allai ei ddarluniad o brydferthwch ei blwyf genedigol (Llandyssul) a dyffryn y Tywi, trwy yr hwn yr oedd ef a'i barti wedi pasio ar eu ffordd i'r gymanfa, lai na swyno'r gwrandawyr ; a chododd y dorf i hwyl rhyfeddol. Amheuthun, hefyd, oedd ei glywed yn talu'r fath ar warogaeth i'w weinidog—y Parch. E. R. Dennis. Dyna'r ysbryd iawn—ysbryd calonogi. Y mae'r rhan fwyaf o weinidogion yn gorfod treulio bywyd cyfan heb brofi fawr o hono. Os am oreu'r gweinidog, dyweder air o galondid wrtho ac o werthfawrogiad o hono weithiau.

* * *

Dechreuwyd gwasanaeth yr hwyr gan Mr. Dennis, a llywyddwyd gan Mr. Lewis, Ysgolfeistr, Llanybyther, ac un o ddiaconiaid Aberduar, yn absenoldeb ei weinidog, y Parch. D. C. Griffiths, yr hwn a rwystrwyd i fod yn bresennol gan ymrwymiad arall. Cafwyd gan Mr. Lewis, hefyd, anerchiad pwrpasol, llawn hyd yr ymyl o ysbryd croesaw cynnes i'r ymwelwyr. Anerchiad grymus, hefyd, gafwyd gan y Parch. Mr. James, gweinidog Rhydybont. "Y canu goreu i'r cysegr," oedd sylwedd ei sylwadau.

* * *

Clywais lawer iawn o ganmol yr arweinydd—y Parch. T. Arthur Thomas—yn ystod y dydd. Y mae cymharu yn atgas, meddir, ac ymataliaf rhag cyflawni'r fath ar amryfusedd. Ond sicr ydyw fod Mr. Thomas wedi rhoi boddlonrwydd cyffredinol. Rhoddodd inni flaenbrawf o'r hyn fedrai wneud fel arweinydd llynedd, er gwaethaf cyflwr anfoddhaol ei iechyd ; ac eleni, gyda'i iechyd (er llawenydd i'w liaws cyfeillion ac edmygwyr) wedi ei lwyr adferyd, cododd i dir uchel iawn fel arweinydd. Cadwodd y gynulleidfa anferth yn hollol dan ei lywodraeth trwy'r dydd ; yr oedd yr oll o'i sylwadau yn bwrpasol ac i'r pwynt—dim gormod, dim rhy fach ; a llwyddodd, nid yn

unig i gadw'r gymanfa ar y tir uchel yr oedd cymanfaoedd y gorffennol wedi ei ennill, ond i ychwanegu at ei chlod. Y mae Mr. Thomas wedi llanw aml i swydd, mewn byd ac eglwys, yn llwyddiannus ac anrhydeddus. Dyma un llwyddiant eto at y lleill. Hir oes iddo i wasanaethu ein heglwysi. [Nawr, Mr. Gol., y mae'r paragraff hwn i fod i fewn. Nid oes "os gwelwch fod yn dda" yn y mater.]

* * *

Ni anturiaf draethu barn ar y canu. Swydd beryglus yw barnu canu. Eithr credaf, er hynny, ei fod o ansawdd uchel. Dyna, mi gredaf, y farn gyffredin. Y mae rhai o'r tonau wedi sicrhau iddynt eu hunain ddyfodol—"Shawmut," er enghraifft; cyd-weddai'r dôn a'r gair yn berffaith. Un gofyniad ddaw i'm meddwl yw—ydyw'r gymanfa cystal ag y dylai, ac y gallai fod? Amcanu at y gwell a'r goreu ddylid wneud yn ddiderfyn. Nid yw'r parotoad at ei chyfer yr oll ellid ei ddymuno. Dywedwn ni fod y gymanfa, fel y mae, yn llwyddiant. Beth pe ceid parotoad trwyadl ar gyfer pob cymanfa, parotoad yn estyn yn ol dros, o leiaf, ryw chwe mis cyn dydd y gymanfa, beth ellid ddweyd am dani wed'yn? Y mae'r arweinyddion lleol yn gwneud eu goreu; ond ni roddir iddynt y gefnogaeth a haeddant gan y cerddorion.

* * *

Ni phroffesaf roddi hanes manwl o'r gymanfa. Fe wneir hynny, yn ddiau, gan yr ysgrifennydd. Ysgrifennydd ardderchog—un wedi ei eni i fod yn ysgrifennydd, ys dywedir, yw Mr. Thomas. Nid yn aml y ceir ysgrifennydd a ymdafla a'i holl enaid i'w waith fel y mae efe wedi wneud trwy'r blynyddau. Y mae yn teilyngu gair o gydnabyddiaeth am ei wasanaeth gwerthfawr; ond teilynga rywbeth yn rhagor, mwy sylweddol, na *gair* o gydnabyddiaeth. Y mae cryn lawer o'r clod am lwyddiant y gymanfa yn ddyledus iddo ef—y dyn tu cefn i'r llenni, fel y gellir yn briodol ei alw. Gwnaeth y cyfeilyddesau—Miss Jones, A.R.C.M., Aldergate; Miss Jenkins, Blaenwaun-uchaf, a Miss Thomas, Green Grove, hefyd eu rhan yn ardderchog iawn; a theilwng iawn oeddynt o'r gydnabyddiaeth roddwyd iddynt ar derfyn cyfarfod yr hwyr.

* * *

Cynhaliwyd y gymanfa gyntaf yn 1872, yng Nghapelygroes, dan arweiniad medrus y diweddar John Lloyd, y pryd hynny o Bantywilco. Yr wyf yn un o'r ychydig sydd fyw heddyw oedd yn y gymanfa honno. Dyna'r unig dro i mi weled a chlywed y diweddar Gwilym Marles. Yr oeddwn yn rhy ieuanc i graffu llawer arno ef yn bersonol, nac ar yr hyn ddywedwyd ganddo. Rhwng y gymanfa honno a'r ail bu bwlch o amryw flynyddau. Y mae hanes y gymanfa,

felly, yn estyn yn ol dros dymor o wyth a deugain o flynyddau. Amhosibl ydyw mesur ei dylanwad yn ystod yr amser hwn, nid yn unig yng ngwellhad caniadaeth y cysegr, ond hefyd mewn cyfeiriadau ereill. Nid y lleiaf o'i gwasanaethau yw'r cyfleustra roddir ganddi i'r cynulleidfaoedd i ddod at eu gilydd unwaith bob blwyddyn ; a chadw yn fyw, fel hyn, eu hadnabyddiaeth o'u gilydd. Hir y parhao i flodeuo. *Semper floreat.*

SYLWEDYDD.

Y PARCH. JOHN JONES, ABERDAR.

(*Parhad o tudalen* 89.)

Fel eraill a gawsant y cyfleustra i adnabod yr "Hen Ddafis," coleddai syniad uchel iawn am dano hyd ddiwedd ei oes. Cofiaf ef yn dweyd tua'r flwyddyn 1851, nad oedd ganddo'r un bwriad i fynd i'r Arddangosfa Fawr yn y *Crystal Palace* yn Llundain ; ond pe byddai yn bosibl iddo gael un awr o ymgom drwy hynny a'i hen athraw, yr elai i fyny bob cam.

Pan yn yr ysgol, lletyai yn Allt-yrodyn Arms, ond yr oedd Shop James Thomas, yn ystod ei oriau hamdden, yn gyrchfan poblogaidd ganddo ef a llawer o bobl ifainc eraill ; ac wrth gwrs yr oedd llawer pwnc yn dod dan sylw. Un noson, bu pwnc y bwciod yn bwnc dadl boeth. Credai rhai ynddynt, ac yr oedd ganddynt lawer i'w adrodd yn eu cylch. Dadleuai yntau yn gryf yn eu herbyn. Nid oedd y cwbl ond ofergoeliaeth gwag a disail. Ond dyma beth oedd yn syn—efe ei hun sydd yn adrodd—cyn gynted ag y croesai'r trothwy i fynd allan i'r tywyllwch, tarawai'r gofyniad ar ei feddwl—Beth os oedd bwciod wedi'r cwbl, ac yntau wedi gwadu! Ar hynny dyna fe yn gosod y traed yn y tir ac yn rhedeg gyflymed ag y gallai nes cyrraedd lle o ddiogelwch yn ngolau'r ystafell lle y lletyai!

Gan Mr. Dafis y parotowyd ef ar gyfer mynd i'r Coleg i Gaerfyrddin. Yn 1823 yr aeth i fewn. Yr athrawon ar y pryd oedd y Parch. David Peter, awdwr llyfr dyddorol ar Hanes Crefydd yn Nghymru, a'r Parch. David Lewis Jones. Ni ddeallais erioed iddo feithrin yr un fath edmygedd o'i athrawon yn y Coleg ag a wnaeth o'r Hen Ddafis. Tebyg ddigon nad oeddynt yn gyffelyb feistri ar y maes y llafurient ynddo ag oedd Mr. Davies ar ei faes ef. Gwnaiff y dyfyniad a ganlyn, allan o Hanes Bywyd Caleb Morris*, roi peth goleuni ar y mater :—"Dau athraw doeth a defnyddiol, ond heb fod yn feddiannol ar dalentau dysglaer nac ysgoloriaeth eang. Diau eu bod yn ddynion cymwys iawn ar gyfrif mwyafrif y bechgyn a ddysgid yn y Coleg ; ond yr oedd yn golled i Caleb Morris nas galwyd ef i ym-

*Bywgraffiad Caleb Morris (1900), t. 39, gan y Parch. D. Tyssul Evans, M.A., B.Sc.

gystadlu â dynion ieuainc mor alluog ag ef ei hunan, ac o dan arweiniad meddylwyr ac ysgolheigion o'r radd flaenaf."

Fodd bynnag, credaf iddo wneud gwaith gwerthfawr a defnyddiol yn ystod ei bedair blynedd yn y Coleg. Yr oedd y Maes Llafur yn eang, a chymerai yntau ddyddordeb yn ei wahanol ganghenau. Yn mhlith ei gyd-fyfyrwyr a enillasant ei serch fwyaf oedd y Parch. John Davies, mab Penrallt, Llandyssul, ac ewythr —brawd ei fam—i'n hen gyfaill ymadawedig, y Parch. W. James, B.A., yr hwn oedd yn anwyl iawn ganddo; Isaac *Davies* (newidiodd ei enw i *Harris* yn y Coleg), o'r Wyddgrug wedi hynny, brawd i David Davies, Abernant, priod Betty, merch y Parch. Thomas Evans, Aberdar —fe rydd y Parch. Ellis Edwards, D.D., air uchel i Mr. Harris fel athraw ysgol;—John Davies, Cwmaman, a'r myfyrwyr Undodaidd wrth gwrs — Jones, Penbont ar Ogwr, golygydd cyntaf YR YMOFYNYDD; Rees Davies, Capelygroes; Dr. Lloyd ac Owen Evans, Cefncoed, gyda'r rhai hyn bu'n gyfeillgar hyd ddiwedd ei oes.

Yr oedd yn arferiad yn y Coleg yn ei amser ef i un o'r myfyrwyr, bob wythnos, barotoi pregeth a'i thraddodi. Yr oedd y bregeth i fod ar destun o ddewisiad un o'i gyd-fyfyrwyr. Yn mhlith yr ysgrifau a adawodd ar ol yr oedd pregeth ar y testun, "A Haran a fu farw o flaen Terah ei dad," (Genesis xi. 28). Beth oedd i'w wneud o'r fath destun? Pwnc y bregeth yw, ac y mae yn naturiol ddigon, ansicrwydd a breuolder einioes. Mewn nodyn ar waelod yr ysgrif, fe ddywed yr awdwr mai "Methu" oedd wedi rhoi'r testun. "Methu" oedd y Parch. Methusalem Davies, Llechryd, wedi hynny.

Mewn llythyr, dyddiedig Mawrth 14, 1827, mae y Parch. Timothy Davis, Evesham, mab yr "Hen Ddafis," yn ysgrifennu fel hyn: "Bydd eich amser yn Nghaerfyrddin, fel rwy'n tybio, yn terfynu eleni. Pan yn cychwyn ar y weinidogaeth, mi a'ch cynghorwn yn sefyllfa bresennol y ddadl Undodaidd, i wneud athrawiaethau mawrion Cristionogaeth yn eu holl burdeb a'u sancteiddrwydd y peth mwyaf amlwg yn eich pregethau. Byddwch yn awyddus i ddangos *beth yw* Cristionogaeth yn hytrach na pha beth *nad yw*. Dymunol iawn, yn wyneb y ffaith y dywedir yn mhob man yn ein herbyn fel sect, fydd i ni geisio dangos fod gennym grefydd sydd yn werth i ddynolryw ei derbyn —un sydd yn ei natur yn llawn diddanwch, ac yn ei dylanwadau yn puro. Mae Cristionogaeth fel system neu gyfundrefn yn system o sancteiddrwydd a chariad ac yn ffafriol hollol i yspryd defosiwn ac ewyllys da."—*Cyfieithad.*

Gedy y Coleg yn 1827, a dywedai'r hen wraig lle y bu'n lletya gyda hi, na fyddai iddo un achos gywilyddio pe'r esgynai unrhyw un i ben clochdy Sant Petr a chyhoeddi holl helynt a hanes ei bedair blynedd yn Nghaerfyrddin. Yn awr y mae Argyfwng Hir a Thywyll yn ei aros. Mae'r amser yn parhau yn dlawd. Nid oes yr un pwlpud gwag na'r un agoriad iddo yn un cyfeiriad. Mae yn taflu golwg i Loegr. Goheba lawer hwnt ac yma. Ceisia am le i gadw ysgol. Treigla o fan i fan. Yn mhlith ei bapyrau cafwyd cerdyn yn cynnwys a ganlyn: "*Cribin School:* The Rev. Rees Davies and John Davies intend to open a Classical, Commercial and Mathematical School, on Monday, the 10th day of October, 1831."

Yma mae yn ennill ei dair a dimai'r dydd! Yn anffodus yr oedd yno rai, fel yn llawer man arall, yn anghofio talu o gwbl. Weithiau, pan ddigwyddai gwrdd â'r Parch. Daniel Evans (Daniel Ddu), elai chwe' cheiniog arno. Yr oedd yn dda fod ganddo rywbeth y tu cefn neu buasai yn dlawd ddigon arno lawer pryd. Am yn agos i chwe' blynedd bu yn y picil hwn.

Gallwn gasglu oddiwrth y llinellau a ganlyn iddo lwyddo i gadw ac i

gynnal ei yspryd i fyny yn weddol drwy y tymor tywyll hwn. Fel hyn y mae'r Parch. J. E. Jones yn ei ateb mewn llythyr dyddiedig "Feb. 17, 1831. Happy! thrice happy optimist! that can resolve the suspense, the crosses, and the disappointments that we meet with into 'Smiles of universal love!' I would not deprive you of your treasure, nor depreciate its value. Full many a time have I sought the grand panacea to alleviate the little miseries and anxieties of my own life. I have even prayed for the faith that can remove mountains. By faith I could cheerfully resign myself to the Almighty Father; but still I cannot help regarding pain and misery and ignorance and vice as real though necessary (i.e. unavoidable) evils. Evils I call them; but I agree with you that without them we could obtain the greater weight of good!" — YMOFYNYDD 1889, tud. 18.

Ond yn nechreu 1833 fe dorrodd y wawr ar y pethau gwell iddo ef. Yn Ionawr y flwyddyn honno y bu farw y Parch. Thomas Evans, a'r dydd cyntaf o Chwefror mae Mr. Jonathan Rhys, Llwydcoed, tad y diweddar Rees Hopkin Rhys, yn ysgrifennu llythyr ato, ar gymeradwyaeth uchel y Parch. John James, Gellionen, yn ei wahodd i'r Hen Dy Cwrdd.

Y Sadwrn diweddaf yn Chwefror, 1833, y daeth i Aberdar, a'r person cyntaf a gwrddodd i holi yn mha le'r oedd y *Blue Bell* oedd Thomas Dawkin (1775—1846), un o aelodau'r eglwys. Drannoeth dechreuodd ar waith ei weinidogaeth, yr hon a barodd mewn enw hyd ddiwedd ei oes. Aeth i letya at Mrs. Williams (Pegi Rd. Williams) ar ben trip y Gadlys, y man lle mae'r King's Head yn bresennol—ty *private* y pryd hwnnw. Yma cafodd lety cysurus nes iddo benderfynu mynd i'w dy ei hun, ar ol ei briodas ag Anne, trydedd merch Mr. Rees Rees, Cilgellisaf, ger Llanbedr, yn Mehefin, 1834.

Agorodd Ysgol Ramdegol Gorffenaf 2, 1833, ac yn ngeiriau Gwilym Marles (gweler ei Gofiant—*Athraw*, 1867): "Yma, bellach, mag ei blant, dim ond dau* i oedran gwyr—bedyddia, cladda, pregetha, dysga, cynghora, beia, llafuria, yn ddewr yn y maes hwn, nes y daw'r wys olaf i'w nol adref, Rhagfyr 19, 1863, wedi bod yn weinidog ffyddlon am ar fin un mlynedd ar ddeg ar hugain."

HWYRDDYDD AR Y TRAETH.

GAN ANTHROPOS.

I.

Chwythai awel ysgafn o'r môr; yr oedd y llanw pell yn dechreu troi yn ol. Pelydrai haul y nawn ar dywod y traeth. Cerddai ymwelwyr hoew yn eu gwisgoedd haf ar y forlan. Eisteddai eraill ar y meinciau coed, gan drafod byd ac eglwys yn ol eu tueddfryd. Gwelid llu yn darllen

*Bu farw'r trydydd Mehefin 8, 1849, yn naw oed.

llyfr neu newyddiadur. Nid oedd yno yr un "cwmni" dramodyddol yn difyrru'r gwyddfodolion, a dedwydd oedd hynny. Yr oedd digon o ddefnydd adloniant yn yr olygfa honno ar nawn yn Mehefin. Nid oeddym yn adwaen yr un wyneb yn y dorf, ond yr oeddym yn tybied mai nid cynrychiolwyr y bywyd segur a gwagsaw oedd y mwyafrif o honynt. Tebyg mai gwŷr prysur oeddynt, wedi dianc am ennyd o dwrf y dinas-oedd i fwynhau egwyl ar lan y môr. Gwerthfawr ydyw cyfle o'r fath i lacio rhwymau tynnion dyledswyddau a phryder meddwl. "See a few big things," oedd cyngor meddyg enwog i wr oedd wedi "rhedeg i lawr," wrth gadwyno ei hun mewn swyddfa o fore i hwyr. Ceir mantais i wireddu y cyngor mewn amgylchedd fel hon, Ar un tu y mae'r mynyddoedd mawr. a'u copaon yn glir a diorchudd, a'r gwyrddlesni tyner yn ymestyn ar eu llethrau llaes. O'n blaen y mae'r eigion llydan, a glesni'r nef yn gorffwys ar ei donau llyfn. Môr a mynydd ; dyna'r "pethau mawr," ac y mae aros yn eu gwyddfod yn deffro rhyw ddyfnderau yn enaid dyn. Yr ydym yn cael ein symmud am dro o rigolau culion bywyd, ac yn gosod ein traed ar y "dragwyddol heol." Y mae hedd a gorffwys yn cludo balm a bendith i'r sawl a fedr fynd i fewn i'w cyfrinach. Nid pawb sydd yn abl i wneyd hynny. Nis gallant fod yn llonydd. Y mae tawelwch yn eu llethu. Ond i'r sawl a ŵyr am hud y dystaw dangnef, y mae oriau ar y traeth, hwyrddydd haf, yn wyn-fyd pur. Nid golygfa unffurf ydyw : y mae mynydd a môr yn gweddnewid dan gyffyrddiadau machlud haul. Y fath olud o liwiau sydd yn ymdoddi i'w gilydd! Gwrida y ffurfafen, a gwelir y "llwybr aur" ar draws yr eigion glas. Ymgasgla gosgordd o gymylau ar ymylon y gorllewin, a'r haul fel cylch o dân yn ymsuddo yn araf, araf, dros y gorwel—

Bywyd y dydd—byd o dân!

Daw y pell yn agos—y tir pell. Gwelir ffermdai, ac aneddau gwledig, yn mhelydrau yr heulwen, a'r ffenestri wedi eu troi yn ffenestri aur.

II.

Daw y llanw i mewn yn dawel. Ni raid holi heddyw—"Ai heddychlon dy ddyfodiad?" Dychwela'r pleser-fadau llwythog tua'r lan. Clywir sain cerddoriaeth yn hedfan gydag awel y dydd. Gwibiai wenoliaid drwy y glesni, "fel arf dur yn gwanu'r gwynt." A dyna swn y don ar y traeth, yn mynd ac yn dod. Nid ydyw yn tabyrddu fel y gwna yn anterth y storm. Rhyw is-alaw felus ydyw heno, ond y mae yn cyffwrdd rhyw linynau anelwig yn nhelyn y galon. Hyfryd a chyfriniol ydyw "murmuron y gragen," ond mwy ac ardderchocach ydyw murmur y môr. Teimlir presenoldeb rhyw ynni di-derfyn, rhyw allu cudd yn rhoddi mynegiant iddo ei hun, ac yn sibrwd ei gyfrinion wrth y glannau, "Yr hwn a osododd y tywod yn derfyn i'r môr." Dyna'r mawr a'r bach yn cymuno a'u gilydd—y llanw a'r ty-wodyn ar y lan. Ac yn y gyfathrach y clywir miwsig y môr. Distaw ydyw yr eigionnau ; ar y traeth y try yn llafar. Onid y "terfynau" sydd yn galw allan bob miwsig a chynganedd? "Gwnei i derfyn bore a hwyr lawenychu." Nid yw y môr yn berffaith heb y glannau. Ac felly yn hanes meddwl a phrofiad. Rhyw-beth sydd yn cyfyngu bywyd, yn fynych, ydyw y cyfrwng i alw'r miwsig i fod. Gall y traeth fod yn arw a chreigiog, ac yna try y gerdd-oriaeth yn wylltineb neu yn brudd-glwyfedd diobaith. Ond pan fo y traeth yn esmwyth, a'r tywydd yn deg, ceir miwsig tyner a mwyn—alawon y dyfnder wedi eu gwisgo mewn cynghanedd sydd yn dihuno breuddwydion, ac yn disgyn ar y glust fel adlais o'r tragwyddol—y pellterau di-fesur, a di-drai. Yr oedd llawer sain yn dod heibio ar y traeth—lleisiau plant yn adeiladu cestyll o dywod ; lleisiau cantorion yn y badau ysgafn ar y llanw ; ond

yr oedd swn y dòn ar y traeth yn treiddio drwy yr oll, ac yn peri iddynt ymddangos yn bethau bychain a dibwys.

III.

Disgynna llenni'r hwyr yn ysgafn fel gwawn. Y mae'r nos fel wedi ymdrwsio yn nillad gwynion y dydd. Gwelir hwy yn eistedd o flaen y ffenestri llydan-agored, ac yn gwylio y porffor ar y gorwel pell. Daw seren yr hwyr—y seren unig—i'r asur las. Gwelir llusern y goleudy yn datguddio ei llewyrch dyspeidiol. Ond prin y mae ei heisiau hi heno. Erys ol-belydrau haul y dydd ar lwybrau'r dòn.

Ond y mae rhyw "Ust" yn sibrwd yn yr awel. Daw nos i deyrnasu ar fynydd a môr; dystawa lleisiau'r dydd. Y mae'r ymwelwyr wedi cefnu ar y traeth. Nid oes yno ond pererindod y tonnau tua'r lan, ac ambell wylan yn ehedeg ar ei hynt. Anodd gadael y ffenestr agored, "Mae'r nos mor dawel." Ni raid wrth oleuni canwyll, a daw y meddwl yn effro dan gyfaredd y gwyll. Ac yn y dwfn ddystawrwydd daw "wyneb au hoff" yn agos atom. Yr ydym yn cymdeithasu ag "ysbrydion" yn y mynudau hyn. Nid oes iaith nac ymadrodd, ond y mae'r cymundeb yn wirioneddol. Yr ydym yn sangu terfynau deufyd, ac yn gwrando byrdwn tragywydd y dòn ar y traeth. "Ac ni bydd nos yno," ebai Ioan y Difeinydd; ond dywed mewn lle arall, "a'i weision ef a'i gwasanaethant ef ddydd a nos."

Ni fydd y nos ystormus, anafol, yn disgyn ar y sanctaidd dir. Ond a fydd bywyd yn berffaith heb nos o haf? Nos heb ei gwisg ddu: nos ddigwmwl; nos a Mehefin ar ei hael, ac yn gwisgo goleuni fel dilledyn. Onid erys honno i alw'r hen freuddwydion adre i gyd? Ac onid yw Shakespeare wedi ei desgrifio yn ei thegwch a'i swyn?—"A midsummer night's dream."

Mae gormod o oleuni yn difa ein breuddwydion; gor-ddisglaerdeb yn eu llethu'n llwyr. Ond daw yr hafnos oleu i blethu ei chyfaredd o'u hamgylch—

"Let me dream again."

PRIODASAU.

MEHEFIN 1, yng Nghapel y Graig, Llandyssul, gan y Gweinidog, Mr. Thomas Jones, Pantyffynnon, Bancyffordd, Llandyssul, â Miss Mary Davies, Maesyrhedydd, Llanfihangel-ar-Arth.

MEHEFIN 12, yng Nghapel Pantydefaid, gan y Gweinidog, Mr. David Rees Thomas, Dancapel, Prengwyn, â Miss Mary Davies, Ffosesgob, y ddau o blwyf Llandyssul.

YN Nghapel Alltyblacca, Mehefin 16, gan y Parch. L. Williams, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Conwil Evans, ac yng ngwydd y cofrestrydd, Mr. Enoch Davies, Llanbedr, unwyd mewn glân briodas Mr. Tom Evans, Fro, Llanfihangel-Ystrad, a Miss Sarah Margaretta Williams, Glynhir, Llanbedr. Dymunwn ddedwyddwch a llwyddiant i'r ddau.

MARWGOFION.

MAI 22, yn 40 mlwydd oed, Mary Evans, priod Johnny Evans, Blaencwrt, ger Cwrtnewydd, a merch Thomas a Mary Davies, o'r un lle. Dechreuodd iechyd yr ymadawedig waelu amryw fisoedd yn ol, a pharhau i waethau hyd y diwedd. Profedigaeth lem i briod ydyw colli cymhares bywyd mor gynar ; colled fawr i blant ydyw cael eu hamddifadu o'u mham tra hwythau mor ieuainc, a phrofiad chwerw i rieni ydyw gweled eu plentyn yn ymadael o'u blaen. Rhyfedd yw peth fel hyn yn ein golwg ni ; ond bydded i'r perthynasau oll ymgysuro yn y ffaith fod Un uwch na ni yn llywodraethu, ac fod Ei weithredoedd i gyd er daioni. Claddwyd ym mynwent Capelybryn yr Iau canlynol, pryd y daeth torf liosog ynghyd i amlygu eu cydymdeimlad â'r galarwyr. Pregethwyd gan y Parch. L. Williams, a chymerwyd rhan gan y Parchn. J. Davies, Tancoed ; D. Morris Jones, Drefach, a J. Evans, Bryn, Llanelli. Gadawodd briod a phedwar o blant, tad a mam, ac un brawd, sef Dr. D. J. Davies, B.A., Ysgol y Sir, Aberystwyth, mewn galar dwys ar ei hol.

MAI 27, yn ei 88ain mlwydd o'i hoedran, bu farw Mrs. Elizabeth Thomas, Clettwr Villa, Pontsian. Yr oedd Mrs. Thomas yn ferch i John a Jane Thomas, o'r Fadfa, wedi hynny o Griborfawr, ac yn chwaer i'r diweddar Barchedig Thomas Thomas, Y.H., o barchus goffadwriaeth. Gallwn feddwl fod Mrs. Thomas wedi etifeddu rhan helaeth o gryfder a nerth moesol ei hynafiaid, ac oherwydd aml rinweddau da ei chymeriad, anwylid hi yn fawr yn y gymydogaeth a'r ardal y treuliodd hi ei hoes hirfaith. Gwyddom fod Clettwr Villa wedi bod yn gyrchfan llawer un mewn trafferth a helbul, ac ni chroesodd neb o'r cyfryw riniog y ddor heb ei fod ar ei ennill yn myned oddi yno. Yr oedd ei chyngor doeth, ei chalon garedig, a'i dymuniadau da ar ran pawb yn wybyddus drwy yr holl ardal. Aroglai ei chymeriad yn beraidd a hyfryd i bawb a'i hadwaenai, ond y rhai agosaf ati gafodd y fantais oreu i weled ei rhagoriaethau a phrofi ei rhinweddau iachusol. "Ei thraed hi a arhoent yn ei thy," hyd y gallai ; "gwarchod gartref yn dda" oedd ei harwyddair. Dylanwad distaw, ond effeithiol, er daioni, oedd yr eiddo hi. Erys ei choffadwriaeth yn werdd. Gadawodd mewn galar mawr o'i cholli un mab, Mr. John Thomas, Y.H., Vrondolay, yr hwn fu'n ofalus a thyner iawn o'i fam yn nyddiau ei llesgedd a'i gwendid. Gosodwyd ei gweddillion marwol i orffwys ym mynwent Pantydefaid, y dydd Llun dilynol i'w marwolaeth. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas, a gweddiwyd wrth y bedd gan y Parch. John Davies, Tancoed.

MEHEFIN 1, yn naw mis oed, Eleanor, plentyn bychan Rees Richards ac Eleanor Richards, Llanfair Hill, plwyf Llanwenog. Ychydig oriau fu afiechyd yr ymadawedig. Claddwyd ym mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, Capelybryn, a chynorthwywyd gan y Parchn. D. Evans, Capelygroes, ac E. Glyn Edwards, Seion, Cwrtnewydd.

MEHEFIN 3, bu farw John Richards, Lowtre, plwyf Llanwnen, yn 85 oed, ar ol cystudd cymharol fyr. Arferai fyw ym Mhantyffynnon, plwyf Llanwenog, ond ar symudiad ei unig fab a merch-yng-nghyfraith i'r lle uchod ychydig flynyddau yn ol, aeth yntau gyda hwy, ac yno y bu yn cartrefu hyd y diwedd. Ar ol ei symudiad i Lowtre, mynychai Aberduar yn gyson, a Brynhafod cyn hynny, a bu yn aelod ffyddlon ymhobun o honynt. Perthynai iddo

lawer o nodweddau cymeriad dymunol iawn, a hoffid ef yn fawr ar gyfrif hynny gan gylch ei adnabyddiaeth. Digonwyd ef a hir ddyddiau ; ymron hyd y diwedd mwynhaodd iechyd da, a derbyniodd bob tynerwch a gofal oddiar law ei fab a'i ferch-yng-nghyfraith Heblaw yr uchod, gadawodd frawd hefyd ar ei ol, a pherthynasai eraill. Cymerodd y gladdedigaeth le ym Mrynhafod dydd Mawrth dilynol. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D. C. Griffiths, Aberduar, a chymerwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parchn. L. Williams, D. Evans, a Glyn Edwards.

MEHEFIN 12, bu farw Hannah Evans, Felinban, ger Llanwnen, yn 54 oed. Yr oedd ei iechyd wedi dechreu gwanychu er's tua dwy flynedd, ond parhaodd i godi a myned oddiamgylch ychydig hyd ddydd ei marwolaeth ; yn hwyr ar y dydd a enwyd, fodd bynnag, ehedodd ei hysbryd at yr Hwn a'i rhoes yn ddisymwth a dirybudd. Ymaelododd yng Nghapelygroes yn gymharol ieuanc, a bu yn aelod ffyddlon hyd y diwedd ; nid oedd ei lle byth yn wag, hyd tua blwyddyn yn ol, pan, oherwydd ei gwendid, y bu raid iddi roddi i fyny. Gwnaeth bopeth oedd yn ei gallu dros lwyddiant yr achos, yr hwn oedd yn agos iawn at ei chalon. "Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth." Gwelir ei heisiau yn fawr. Gadawodd un ferch, tri brawd, a phedair chwaer, ynghyd â lliaws o berthynasau agos mewn hiraeth dwys ar ei hol. Derbyniodd bob gofal a thynerwch gan ei merch a'i brawd fu yn cydfyw â hi, gan y rhai y gwelir ei lle yn wâg iawn, ac y teimlir colled mawr ar ei hol. Bu iddynt yn fam a chwaer ddiwyd a gofalus. Ymgysurent yn y meddwl fod popeth yn ei bywyd yn gwneud y goffadwriaeth am dani yn felys iddynt. Cymerodd ei chladdedigaeth (anghyhoedd) le dydd Iau dilynol, pryd y rhoddwyd ei gweddillion i orwedd ym mynwent Capelygroes yn ymyl eiddo ei rhieni. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, gyda chynorthwy y Parch. L. Williams. Traddodwyd y bregeth angladdol yng Nghapelygroes, ar y 27ain, oddiar Luc x. 42, i glywedigaeth cynnulleidfa liosog.

MEHEFIN 14, yn 83 mlwydd oed, Mrs. Mary Jones, priod Mr. David Jones, Troedrhiw, Cwrtnewydd. Yr oedd yr ymadawedig wedi cael ei chyfyngu i'w chartref er's rhai blynyddau, ond yr oedd yn gallu cyfarwyddo a chynghori yn y teulu yn fedrus a doeth, a theimlir colled a gwagder mawr ar ei hol. Bu ei phriod a hithau yn cyd-fyw am yn agos i dri-ugain mlynedd, ac y mae yr ysgariad, wedi bywyd mor faith a hapus, yn un chwerw iawn. Teimla pobl yr ardal hefyd eu bod wedi cael colled oblegid ei symudiad, canys yr oedd yn un garedig iawn, ac yn cyflawni gweithredoedd o garedigrwydd yn aml. Yr oedd yn aelod o eglwys Capelybryn, ond yr oedd wedi ei lluddias gan wendid i allu bod yn bresennol er's amryw flynyddau. Gweiniwyd yn ofalus ac yn dyner arni yn ei hafiechyd olaf gan ei dwy ferch, ac wyres iddi, yr hon sydd yn cartrefu yn Troedrhiw. Claddwyd yng nghladdfa Capelybryn, y Gwener canlynol, pryd y daeth torf liosog iawn ynghyd. Pregethwyd gan y Parch. L. Williams, a chymerwyd rhan gan y Parchn. D. Evans, E. O. Jenkins, T. O. Williams, ac E. Glyn Edwards. Gadawodd briod, dau fab, dwy ferch, amryw o wyrion, a dau frawd mewn galar ar ei hol. Amddiffyn y Nef fyddo dros y priod y gweddill o'r daith, a chaffed y plant a'r perthynasau ereill eu cymodi a'r amgylchiad gan y gwirionedd "nad oes i ni yma ddinas barhaus."

MEHEFIN 21, yn 38 mlwydd oed, J. Garfield Jones, Alexandra House, Cwrtnewydd, mab y diweddar Thomas Jones, Arwerthwr, a Mrs. Jones, o'r un lle, o'r *pneumonia*. Yr hwyr cyn ein Cymanfa Ganu pwy ddydd, dywedai wrth ei gyfeillion ei fod yn bwriadu myned i'r Gymanfa Ganu, ond yn gynnar boreu dran-

noeth cafodd ei gymeryd yn wael. Y mae Siop y Jones, Cwrtnewydd, yn enwog ar gyfrif y fasnach fawr oedd yn cael ei chario yn mlaen yno gan rieni yr ymadawedig ; dilynodd yntau ei rieni yn y fasnach, ac yr oedd ef, fel ei rieni, wedi ennill ymddiried pobl ynddo fel dyn cywir a gonest. Heddyw, ar ol ei farwolaeth, fel y mae yn digwydd bob amser, gwel ei gydnabod ei rinweddau yn fwy amlwg nag yn ei ddydd, a chlywir un yn son am y rhinwedd hwn, a'r llall am y rhinwedd arall ynddo, a theimla pawb ei fod fel dyn ieuanc oedd mewn amgylchiadau bydol a'i galluogai i fwynhau ei hun fel y dymunai wedi amlygu meddwl pur a nerth moesol i allu ymgadw oddiwrth y profedigaethau lawer sydd yn arwain dynion ar gyfeiliorn, a byw bywyd mor lân. Yr oedd o anianawd dawel, a bu fyw yn dawel ym mhlith ei gyd-ddynion. Yr oedd yn aelod o eglwys Capelybryn, lle yr oedd ei rieni yn flaenllaw o'i flaen, a bydd bwlch ar ei ol. Gwneir bylchau yn aml yno yn awr, a hyderwn y teimla rhywrai rwymedigaeth i'w llanw. Claddwyd ym mynwent Capelybryn. Pregethwyd gan y Parch. L. Williams, a chymerwyd rhan gan y Parch. J. Davies. Cydymdeimlir yn fawr a'i frodyr, Dr. E. Jones, Y.H., Llanybyther ; D. Martin Jones, Y.H., Gwyon Castle, a Josiah Jones, C.S., Garthowen, yn eu profedigaeth lem. Heblaw ei frodyr, gadawodd dair chwaer-yng-nghyfraith, tri o neiaint, ac amryw o berthynasau agos eraill mewn galar mawr ar ei ol.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Derbyniadau 1920—Brondeifi 10s. ; Rhydygwin 17s. 9c. ; Capelybryn 10s. ; Hen Dy Cwrdd, Aberdar 10s ; Llwynrhydowen 7s. ; Capelygroes 18s. ; Alltyplaca 7s. 6c. ; Cribyn 14s. ; Trebanos 15s., hefyd 7s. 6c. am 1919. Y mae y cyfanswm mewn llaw yn awr yn £16 18s. 9c.—CLEDLYN DAVIES, *Trysorydd.*

Y GRAIG A GELLIONEN. — Yn Neuadd Gyhoeddus Pontardawe, nosau Iau a Sadwrn, Mawrth 25 a 27, rhoddodd Gobeithlu y Graig ddau berfformiad o'r chwareugerdd glasurol, "The Magic Cup" (Johnston), dan arweiniad Mr. Isaac E. Hopkin, Brynderw, yr hwn a ddaeth i'r adwy ar ychydig iawn o rybudd. Yn absenoldeb yr arweinydd, Mr. H. H. Morgan, yr hwn a gymerwyd yn glaf yn dra sydyn. Llafuriodd efe auaf cyfan, a mwy, ond ni chafodd y pleser o weled ffrwyth ei egni yn cael ei fwynhau gan dyrfaoedd mawrion, ond boddlonodd efe ar fod y ddwy gyngherdd wedi troi allan mor llwyddianus, ym mhob ystyr. Felly y bu hefyd yn hanes ei fachgen, Master Haydn Morgan, yr hwn oedd y perdonydd i fod, a chymerwyd y gorchwyl i fyny gan Mr. Llewelyn Davies, Clydach. Arweiniwyd y Gerddorfa Linynol gan Mr. Marles Williams. Da genym ddweyd i bawb wneud eu gwaith yn ardderchog bob tro, yn enwedig y plant, yr oeddent cyn wyned a'r engyl, a llygaid pawb oedd yn syllu arnynt.

PANTYDEFAID. — Cynhaliodd Ysgolion Sul y cylch eu cymanfa flynyddol yn y lle uchod y Sulgwyn. Daeth cynulliadau lliosog ynghyd o'r pedair ysgol gynrychiolid, ac holwyd hwy yn y maes llafur paratoedig gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhyd-

owen. Arweinydd y canu ydoedd Mr. Tom Davies, Dewi Villa, a'r gwnaeth ei waith yn ganmoladwy. Cyfeiliwyd ar yr Organ gan Miss Bessie Thomas, Penarwel. Estynwyd y croesaw mwyaf calonog gan aelodau eglwys Pantydefaid i'r dieithr o fewn y pyrth. Yn yr hwyr cynhaliwyd *rehearsal*, a chanwyd y tonau a'r corawd genir yn y Gymanfa Gerddorol. Ymddengys oddiwrth yr hwyl gafwyd yn y cwrdd hwn fod y gwaith yn y cylch hwn wedi ei feistroli. Cafwyd hin ddymunol iawn, a diwrnod wrth ein bodd, ac yn fendith i bawb, gobeithio.——Dydd Gwener, Ebrill 9, cynhaliodd yr Ysgol Sul ei gwyl dê flynyddol Rhoddwyd y wledd eleni gan y Misses Jones, Glanant; Davies, Winllan; a Davies, Y Bryn, Llanybyther. Cynnorthwywyd hefyd gan Mr. Edward Thomas, Blaenmene. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i'r rhai hyn am eu caredigrwydd. Yn yr hwyr cynhaliwyd Cyfarfod Cystadleol llwyddiannus iawn. Cadeiriwyd mewn modd deheuig gan Mr. James Evans, Gyfeile, a chafwyd cystadleuaethau dyddorol ar bôb testyn. Y mae ym mwriad y cyfeillion ym Mhantdefaid i helaethu y Festri er cael lle mwy cyfaddas i gynnal rhagor o gyfarfodydd o'r natur hwn. Llwyddiant ddilyno'r mudiad.

Rhydygwin.—Ar achlysur dathlu ei ddeng mlwydd a thrigain Ebrill yr 28ain, anrhegodd Mr. a Mrs. David Hughes, Maesffynonoer, eglwys Rhydygwin, a gwledd o dê, &c. Yn yr hwyr cynhaliwyd Cwrdd Adloniadol yn yr hwn yr anrhegwyd Mr. a Mrs. Hughes ag Awrlais a Llestri Tê (arian). Y mae Mr. Hughes yn gerddor gwych, ac wedi rhoddi gwasanaeth blynyddau yn yr eglwys a'r ardal. Esmwyth ac heddychol y byddo gweddill eu blynyddoedd ar y ddaear.——Da genym gofnodi llwyddiant Miss Nano Evans, Y Fro, i gael y dystysgrif yn y dosbarth blaenaf yn y *Senior Examination* y *Royal College of Music*. Llwydded i ddringo eto. Parotowyd hi gan Miss Jones, A.L.C.M., Aldergate.

Llwynrhydowen.—Mae gan yr eglwys hon, fel llawer i eglwys arall, rai ffyddloniaid ar wasgar. Yn ddiweddar mae wedi derbyn rhodd o arian tuag at y weinidogaeth oddiwrth Miss Mary Watkins, Heol-y-Bont, Llanybyther. Nid oes ond ychydig flynyddoedd oddiar y derbyniodd yr eglwys rodd debyg oddiar ei llaw o'r blaen. Mae'r achos yn y lle, yn enwedig yr hen gapel, yn anwyl iawn ganddi, a bwriada gael ei chladdu yn ymyl gweddillion ei brawd, yn mynwent yr hen gapel. Teimlwn yn ddiolchgar iawn iddi am ei charedigrwydd.

Capelygroes.——Cynhaliwyd y Gymanfa Ysgolion eleni yn y lle hwn, pryd y daeth yr ysgolion canlynol ynghyd:- Capelygroes, Caeronen, Alltyplaca, a Brondeifi. Rhoddwyd cyfarfod y boreu i'r plant yn unig; holwyd hwy ar y Maes Llafur gan y Parch. T. O. Williams, B.A., a chanwyd tonau ac emynau'r plant yn felus iawn. Cyfarfod dymunol iawn oedd hwn yn ol barn pawb fu ynddo. Yn y prydnawn aeth yr ysgolion drwy eu gwaith, fel y canlyn: Caeronen, Ioan 6 (rhan); Capelygroes, Ioan 6 (rhan); Alltyplaca, Iago 4; Brondeifi, Iago 5. Holwyd y ddwy gyntaf gan y Parch. L. Williams; a'r ddwy olaf gan y Parch. D. Evans. Aeth pob un o honynt drwy eu gwaith yn dda iawn. Cyfeiliwyd yn ystod y dydd gan Miss Jenkins, Blaenwaunuchaf.

Aberystwyth.——Mae'n bleser genym allu cofnodi fod gwedd mwy llewyrchus ar yr achos bychan yma eleni nag a fu er ys llawer blwyddyn bellach. Canlyniad naturiol yw hyn o'r ffaith fod Coleg y Brifysgol yn llawnach nag y bu erioed o'r blaen. Ymhlith y mil a mwy o fyfyrwyr sydd yma mae amryw o fechgyn a merched ieuainc o wahanol gynulleidfaoedd Undodaidd yng Nghymru a Lloegr, ac ar y cyfan maent yn gyson iawn yn eu mynychiad o'r addoliad. Teimlwn yn sicr y bydd eu rhieni a'u

perthynasau gartref yn falch i glywed hyn, ac felly mae yn bleser gennym ddwyn tystiolaeth i'r ffaith. Carem yma dalu ein teyrnged o barch i un fu tra y gallodd yn aelod ffyddlon o'r eglwys fechan hon, sef, Miss Jane Meese, o Wolverhampton, yr hon a groesodd i'r bywyd uwch yn ystod mis Ebrill. Hoffai son am y capel bach, ac amlwg oedd fod y gwasanaeth yn boddloni angenion dyfnaf ei henaid. Heddwch i'w llwch.

HELBUL RHYFEDD. — Deallwn oddiwrth newyddiadur wythnosol mai pwnc sydd yn achosi cryn drafferth a helbul yn un o eglwysi Annibynol Llanelli yw, a ydyw yn iawn i dderbyn Undodwr yn aelod o honi. Ni wyddom beth fu'n achos dechreuad y ddadl hon. Diau fod rhyw Undodwr breswylia yn y dref yn gofyn am aelodaeth eglwysig, a'r cwestiwn yw a ganiateir iddo. Y mae llawer o ddwr wedi rhedeg dan y bont er yr adeg yr erlidiwyd y Parch. John Davies, Alltyplaca, yno, ac y gorfu iddo ddianc am ei einioes, oherwydd traethu o honno efengyl syml y Bregeth ar y Mynydd, ac mae y ffaith fod yr eglwys y cyfeiriwyd ati yn ystyried y cwestiwn, yn profi fod awyrgylch grefyddol Llanelli wedi newid er yr adeg honno. "Ymaith ag ef" ydoedd y llais gynt, ond yn awr, gadewch i ni ystyried y mater. Mae y byd yn symud.

AR GARN Y CERYG GWYNION.

(Sef un, o lawer, o'r crugiau bychain o geryg gwynion, a godasai y prydydd, flynyddoedd yn ol, er ei dywys tuag adref, yn nyrus droadau y llwybr yn y grug, dros y Crug Bach, pan yn dychwelyd yn y gwyll, yn ei ymweliadau a'i gyfaill Cynfelyn, yn byw yr ochr arall i'r mynydd).

I.

Ar garn y Ceryg Gwynion
Eisteddais yn y grug,
Tra'r gwenyn ar eu hedyn aur
Yn goglais blodau'u brig ;
O'm cwmpas dyrchai'r bryniau,
Ar flaenau'u traed mewn gwyrdd,
Tra'r huan sanctaidd uwch fy mhen
Dan ei frenhinol urdd ;
Ond yn y cain wynfaol ddydd,
Daeth hiraeth i fy ngwneyd yn brudd.

II.

Edrychais ar y Ceryg
Grynhoais flwyddi'n ol,
A theimlais arnaf eu bod hwy
Yn gwneyd y call yn ffol ;
Do, teimlais fod fy nyddiau,
Yn prysur ddod i ben,
A rheiny yn anhebyg iawn
I wawr y "Gareg Wen" ;
Daeth adgof ataf fel o'r bedd,
Ac yna ni ches fawr o hedd.

III.

Fy nghân a droes yn gwyno,
Wrth gofio'r dyddiau gynt,
Ac am gyfodi'r garnedd hon
Rhag d'rysu ar fy hynt,
Ac i fy nghyfarwyddo,
I'm cartref yn y nôs,
Pan heb un cyfaill rhwng y grug,
Ond gwawl y lleuad dlos,
Yn nghyd a llawer gwyneb gwiw
A gollais yn nirgelwch Duw.

IV.

Mae bryn y "Ceryg Gwynion,"
Yn aros fel erioed,
A'm llwybrau ar ei ysgwydd werdd,
A'r Wstrws wrth ei droed ;
Yn sefyll mae'r carneddau,
A'r grug o gylch eu sedd,
Ond llawer câr o'u hamgylch sydd
Yn awr dan gysgod bedd,
A'm trigfa fry, o'u plith yn mhell,
Yn Ngwynedd—mewn meudwyol gell.

IOAN DAFYDD.

. . Blodeuyn a Chân. . .

PEDWARAWD.

Geiriau gan AP GWARNANT. T. AERON DAVIES, Lampeter.

Doh F.

:s	.f	m	:-	.m	:f	.m	m	:r	:m	.r	d	:-	.m	:f	.m	r	:—
:		d	.d	:d	.d	:d	.d	d	:t$_1$	:		d	.d	:d	.d	:r	.d	t$_1$	:—
:		s	.s	:s	.s	:l	.l	s	:s	:		s	.s	:s	.s	:s	.s	s	:—
:d	.d	d	:-	.d	:f$_1$	.f$_1$	l$_1$	s$_1$	:s$_1$	:f	.f	m	:-	.d	:t$_1$	.d	s$_1$	:—

Anian wen - a 'nglas y dôl - ydd, Natur ddawnsia'n llygad dydd,

:r	.de	r	:-	.f	:m	.r	d	:l$_1$	:d	.r	m	:-	.s	:m	.r	d	:—
:		t$_1$	.t$_1$	:t$_1$	.r	:t$_1$	.t$_1$	s$_1$	:f$_1$	:		s$_1$	.s$_1$	:d	.d	:t$_1$	.t$_1$	d	:—
:		s	.s	:s	.s	:s	.s	d	:d	:		d	.d	:m	.m	:s	.f	m	:—
:s$_1$	.s$_1$	s$_1$	:-	.t$_1$	:s$_1$	.f$_1$	m	:f$_1$	:l$_1$	.l$_1$	s$_1$	:-	.s$_1$	:s$_1$	.s$_1$	d	:—

Wylo, wyl - o'r gawad beunydd, Glâs a heul - wen wed'yn fydd :

:m	.s	d'	:-	.t	:l	.l	s	:m	:l	.d'	s	:-	.m	:f	.m	r	:—
:d	.t$_1$	d	:-	.d	:d	.t$_1$	d	:d	:		d	.d	:d	.d	:r	.d	t$_1$	:—
:s	.s	s	:-	.s	:s	.s	s	:s	:		m	.m	:s	.s	:s	.s	s	:—
:d	.r	m	:-	.m	:f	.f	m	:d	:f$_1$	.l$_1$	d	:-	.d	:t$_1$	.d	s$_1$	:—

Rhos a li - li, tlysau'r flwyddyn—Dan yr haul fel arian byw,

Rall......

:m	.r	d	:-	.r	:d	.t$_1$	l$_1$	:d	:d	.r	m	:s		:r	.m	d	:—
:		l$_1$	.l$_1$	:l$_1$	.l$_1$	:l$_1$	.s$_1$	f$_1$	:l$_1$	:		d	.d	:d	.d	:t$_1$	.t$_1$	s$_1$	:—
:		m	.m	:f	.f	:d	.d	d	:f	:		s	.s	:s	.m	:f	.s	m	:—
:se$_1$	.se$_1$	l$_1$	:-	.f$_1$	:f$_1$	.f$_1$	f$_1$	:f$_1$	:l$_1$	.s$_1$	s$_1$	:s$_1$		:s$_1$	.s$_1$	d	:—

Pwy a liw - iodd rudd blodeuyn? Pwy fu ym - a ond fy Nuw.

Distaw drydar sy'n y goedwig,
Ac o'r glâs daw cywair dydd,
Melys, melys ydyw'r miwsig,
Eilio cariad sy'n y gwydd :
Canu, moli, tlws yw'r salmau,
O mor llon ! mor fyw ! mor fyw !
Pwy a fu'n cyweirio'r tannau ?
Canu'i delyn mae fy Nuw.

BOOKS ON LIBERAL RELIGION.

— Just Published. —

A Unitarian's Thought of God. By Christopher J. Street, M.A., LL.B. Crown 8vo., 94 pp., 2s. 6d. net, paper 1s. 6d. net, postage 3d. "This little book is the result of a firm conviction that no solution is to be found for the deepest problems of life except in the thought of God and the realisation of his presence and operation in the life of man."—*Preface.*

Realities and Reconstruction. By R. Travers Herford. Crown 8vo, 152 pp., 3s. 6d. net, paper 2s 6d net, postage 3d. "It is salutary to read these quiet, sensible chapters which hold up a high ideal, but at the same time remind us of some obstinate facts."—*Inquirer.*

The Parables of Jesus applied to Modern Life. By J. Cyril Flower. With a Foreword by Dr. L. P. Jacks. Crown 8vo., 116 pp., paper 2s. net. Mr. Flower writes as one who believes that "the time is at hand when we shall cease to chatter about the person of Christ, and when the world will catch a glimpse of the real man of Galilee, and give ear to a teaching which, like the seed growing in secret, shall germinate in the hearts of men and revolutionize our social life, our industrial order and our religion."

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Postage is saved by ordering through a Bookseller.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Six Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

London Joint City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £34,428,948. Paid up Capital .. £7,172,697 10s.

Reserve Fund .. £7,172,697 10s.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1918.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz :—			
£2 10s. 0d. per Share on 2,869,079 Shares of £12 each	7,172,697	10	0
,, Reserve Fund	7,172,697	10	0
,, Dividend payable on 1st February, 1919	451,879	18	10
,, Balance of Profit and Loss Account as below	675,097	14	7
	15,472,372	13	5
,, Current, Deposit & other Accounts	334,898,435	12	6
,, Acceptances on account of Customers	13,145,849	2	11

	£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £8,000,000) and Cash at Bank of England	63,756,371	2	5
,, Cheques on other Banks *in transitu*	2,001,486	12	7
,, Money at Call and at Short Notice	65,809,169	12	4
,, Investments :—			
War Loans, at cost (of which £432,979 15s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities ..	57,463,594	19	3
Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures	468,383	12	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks ..	1,112,725	19	8
Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds	1,410,465	18	10
Sundry Investment	1,145,481	1	6
,, Bills of Exchange	39,249,296	3	2
	232,416,975	1	9
,, Advances on Current and other Accounts ..	99,213,614	15	6
,, Advances on War Loans	14,218,201	2	1
,, Liabilities of Customers for Acceptances ..	13,145,849	2	11
,, Bank Premises, at Head Office and Branches ..	3,762,127	6	7
,, Belfast Bank Shares :—			
50,000 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid			
150,000 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid			
Cost £1,237,500 0 0			
Less part Premium on Shares issued .. 477,810 0 0	759,690	0	0
	£363,516,657	8	10